
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd y Ymchwil**

# Crynodeb o’r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2: Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Crynodeb o’r Bil

Rhagfyr 2019




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6291**
E-bost: **Sian.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd y Ymchwil**

# Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2: Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Rhagfyr 2019

**Awduron:**
Sian Thomas

## Cynnwys

**1. Beth sydd yn y papur hwn? .......... 1**

**2. Beth yw'r 'cyfnodau' hyn pan fydd y Cynulliad yn penderfynu ar gyfreithiau newydd? .......... 1**

**3. Beth mae'r Bil hwn yn ei wneud? .......... 2**

**4. Beth sydd wedi digwydd hyd yma o ran y Bil hwn? .......... 2**

**5. Pa newidiadau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2 y broses? .......... 3**

5.1. CYTUNWYD: Dyletswydd i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth y Cyhoedd .......... 4

5.2. CYTUNWYD: Dyletswydd i adrodd ar effaith y ddeddfwriaeth .......... 4

5.3. CYTUNWYD: Y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau .......... 5

5.4. Heb eu Cytuno: Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol .......... 5

5.5. CYTUNWYD: Cychwyn .......... 6

**6. Beth nesaf? .......... 6**

**Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2:** Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## 1. Beth sydd yn y papur hwn?

Manylion y newidiadau a wnaed i'r **Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)** yn ystod trafodion Cyfnod 2.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 25 Hydref 2019 a chaiff y Bil ei drafod eto gan y Cynulliad cyfan ar ddechrau 2020.

## 2. Beth yw'r 'cyfnodau' hyn pan fydd y Cynulliad yn penderfynu ar gyfreithiau newydd?

Fel arfer mae pedwar cyfnod pan fydd y Cynulliad yn ystyried a ddylai Bil ddod yn gyfraith. Mae'r cyfnodau yn cymryd ychydig o fisoedd i'w cwblhau, a byddant yn digwydd, yn fras, yn y drefn a ganlyn:

**Cyfnod 1:** Yn y cyfnod hwn y dewisir pwyllgor i edrych ar yr hyn y mae'r Bil yn ceisio ei wneud, a oes angen deddf newydd i gyflawni hynny, ac a yw'r Bil wedi'i ysgrifennu yn y ffordd iawn. Mae'r Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad ac yna mae'r Cynulliad cyfan yn pleidleisio ar a all y Bil fynd ymlaen i'r cyfnod nesaf.

**Cyfnod 2:** Yn y cyfnod hwn gall unrhyw Aelod Cynulliad neu Lywodraeth Cymru awgrymu newidiadau i eiriad y Bil. Yna bydd aelodau'r Pwyllgor a ddewiswyd yn edrych ar y newidiadau hyn a awgrymir, ac yn pleidleisio a ddylid cytuno arnynt ai peidio.

**Cyfnod 3**: Mae'r cyfnod hwn yn debyg i Gyfnod 2 ond gall pob un o 60 Aelod y Cynulliad bleidleisio i gytuno ar y newidiadau y gall unrhyw Aelod eu hawgrymu, neu eu gwrthod.

**Cyfnod 4**: Yn y cyfnod hwn mae'r Cynulliad cyfan yn pleidleisio a ddylid pasio geiriad terfynol y Bil, gan gynnwys unrhyw welliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i eiriad y Bil yn y cyfnod hwn.

Rhan olaf y broses yw pan gaiff y Bil ei gymeradwyo gan y Frenhines, sef y caiff 'Gydsyniad Brenhinol'. Pan fydd hyn yn digwydd mae bellach yn gyfraith yng Nghymru.

Gallwch weld y manylion llawn am y 'cyfnodau' ar y **dudalen hon ar wefan y Cynulliad.**

## 3. Beth mae'r Bil hwn yn ei wneud?

**Nid** yw'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) **yn creu trosedd newydd.** Os daw'n gyfraith, mae'n golygu na all rhiant, neu unrhyw oedolyn sy'n gweithredu yn lle rhiant, a gaiff ei gyhuddo o ymosod ar blentyn neu'i guro ddefnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol. Ar hyn o bryd, mae Adran 58 o **Ddeddf Plant 2004** yn nodi y gellir defnyddio 'cosb resymol' fel amddiffyniad. Os caiff ei phasio, yn sgîl y gyfraith hon ni fydd hi'n gyfreithiol mwyach i blant yng Nghymru gael eu cosbi'n gorfforol. Dyma **grynodeb o'r Bil gwreiddiol** a luniwyd gan Ymchwil y Senedd.

## 4. Beth sydd wedi digwydd hyd yma o ran y Bil hwn?

Ym mis Mawrth 2019, cyflwynodd Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Fil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)** ("y Bil").

**Cyfnod 1**: Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth, a gwnaeth 20 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei **adroddiad ym mis Awst 2019.** Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r Bil, oherwydd noda'r adroddiad:

> "Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'n Pwyllgor yn credu bod dadl gref y bydd y Bil hwn yn lleihau'r risg o niwed posibl i blant a phobl ifanc."

Fodd bynnag, ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi'r Bil, roedd y Pwyllgor hefyd yn gwneud 20 o argymhellion. Wrth gyfeirio at ddau o'r rhain dywedwyd 'ei bod yn hanfodol bod dau beth yn eu lle i sicrhau bod y Bil hwn yn gweithio er budd plant a'u teuluoedd'. Dywed yr adroddiad:





> Yn gyntaf, mae ymgyrch codi ymwybyddiaeth eang yn hanfodol. Mae hyn yn sylfaenol i lwyddiant y ddeddfwriaeth hon ac felly, yn ein barn ni, mae'n rhaid i ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni hyn gael ei gosod yn glir ar wyneb y Bil.
>
> Yn ail, mae'n rhaid bod cymorth cyffredinol ar gael i rieni ar draws Cymru. Mae'n rhaid gwneud llawer mwy i helpu teuluoedd gyda'r heriau anochel a wynebir wrth fagu plant.

Ceir yma **grynodeb o'r hyn a ddywedodd y Pwyllgor,** a luniwyd gan wasanaeth Ymchwil y Senedd, ac **ymateb Llywodraeth Cymru** i'r argymhellion hynny.

Hefyd cyflwynodd **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** a **Phwyllgor Cyllid** y Cynulliad adroddiad ar y Bil hwn, a gallwch ddarllen am yr hyn a **ddywedwyd** pan gynhaliwyd dadl ar y Bil gan y Cynulliad cyfan ar 17 Medi 2019. Darparodd Llywodraeth Cymru **rywfaint o wybodaeth ychwanegol i Aelodau'r Cynulliad** yn fuan ar ôl y ddadl honno.

**Cyfnod 2**: Dechreuodd y Cyfnod hwn ar 18 Medi 2019 a chynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 24 Hydref 2019. Gallwch **ddarllen** yr hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod hwnnw.

**Cyfnod 3**:Dechreuodd y Cyfnod hwn ar 25 Hydref 2019. Bydd trafodion Cyfnod 3 yn cael eu cynnal mewn cyfarfod o'r Cynulliad cyfan yn gynnar yn 2020. Caiff yr union amser ei gyhoeddi yn **Natganiad Busnes y Cynulliad**..

**Cyfnod 4**: Nid ydym wedi cyrraedd y Cyfnod hwn eto.

## 5. Pa newidiadau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2 y broses?

Ceir lincs yma i'r dogfennau perthnasol. Sef y:

- **Bil Gwreiddiol**
- **Bil Diwygiedig:** sy'n cynnwys y newidiadau (a elwir yn 'welliannau') a wnaed yng Nghyfnod 2. Mae llinellau yn yr ymyl dde yn dangos lle mae'r geiriad wedi'i newid.
- **Manylion ynghylch beth oedd y newidiadau a awgrymwyd a chyflwyniad** Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'n fanylach y newidiadau yr oedd am eu gwneud.

- **Y drefn a ddilynwyd o ran trafod y newidiadau a awgrymwyd**
- Sut y gwnaeth pob un o Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **bleidleisio** ar bob newid a awgrymwyd.

## 5.1. CYTUNWYD: Dyletswydd i Hyrwyddo Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**CYTUNWYD:** Llywodraeth Cymru **gwelliant 1**, (wedi'i gyflwyno mewn ymateb i argymhelliad yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg):

> **Hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd bod adran 1 yn dod i rym:**
>
> Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau cyn i adran 1 ddod i rym er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau i'r gyfraith sydd i'w gwneud gan yr adran honno..

Hefyd **cytunwyd** ar **welliant 4** Llywodraeth Cymru sy'n golygu bod y ddyletswydd hon yn dod i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

**Heb Gytuno:** Pum gwelliant a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AC, sef **1A, 1B, 1C, 1D ac 1E**. a oedd yn ymwneud â hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd.

## 5.2. CYTUNWYD: Dyletswydd i adrodd ar effaith y ddeddfwriaeth

**CYTUNWYD: Gwelliant 2 gan Lywodraeth Cymru:**

> **Adroddiad ar effaith adran 1**
>
> (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben, lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith diddymu, yn rhinwedd adran 1, amddiffyniad cosb resymol.
>
> (2) Yn is-adran (1), ystyr "cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 1 i rym.'[1]

Hefyd **cytunwyd** ar **welliant 5** Llywodraeth Cymru, a fyddai'n dod â gwelliant 2 i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

Er bod gwelliant 2, y cytunwyd arno, yn cyfeirio at gyfnod adrodd ar ôl 5 mlynedd, ni fyddai'n rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf cyn pen 7 mlynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, gan na fyddai adran 1 o'r Bil yn dod i rym cyn pen dwy flynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

**Heb ei gynnig:** Ni chynigiodd Suzy Davies AC **welliant 2B** a oedd â'r nod o leihau'r cyfnod adrodd o 5 i 3 blynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym. Roedd hyn yn dilyn ymrwymiad gan y Dirprwy Weinidog i weithio gyda hi i gyflwyno gwelliant



**Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2:** Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

diwygiedig yng Nghyfnod 3 (gweler isod). **Dywedodd** Suzy Davies AC, yng ngoleuni sicrwydd y Dirprwy Weinidog, na fyddai hi'n cynnig y gwelliant hwn ar y pryd, ond dywedodd: "**I reserve the right to bring something back if we can't reach consensus".**

**Heb eu Cytuno:** Wyth gwelliant gan Janet-Finch Saunders AC ac un gwelliant gan Suzy Davies AC (**2A a 2C i 2K)**. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod am weithio gyda nhw mewn perthynas â gwelliannau 2B a 2D. Dywedodd y byddai hi'n 'barod i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad interim ar ôl tair blynedd, yn ogystal ag adroddiad terfynol ar ôl pum mlynedd, a'i bod hefyd yn barod i gyflwyno un gwelliant arall yng Nghyfnod 3, i'w gwneud yn ofynnol i'r adolygiad ôl-weithredu gael ei osod gerbron y Cynulliad, yn ychwanegol at y gofyniad i'w gyhoeddi.

## 5.3. CYTUNWYD: Y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau

**CYTUNWYD: Gwelliant 3 Llywodraeth Cymru** sydd, i grynhoi, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth 'ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed' mewn cysylltiad â chael gwared ar yr amddiffyniad. Hefyd cytunwyd ar **welliant 6** Llywodraeth Cymru sy'n golygu bod y pwerau hyn yn dod i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

**Heb eu Cytuno:** Esboniodd Suzy Davies AC fod ei **gwelliant 3A** hi'n 'welliant treiddgar' i ystyried yn fanwl a oedd pwerau llunio rheoliadau cyfredol y Bil yn ddigonol 'i weithredu adran 1', o ystyried y gwelliannau y cytunwyd arnynt eisoes (mae Adran 1 yn dileu'r amddiffyniad). Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn cefnogi'r gwelliant ond **cadarnhaodd** ei bod **yn barod i drafod hyn cyn y trafodion yng Nghyfnod 3.**

## 5.4. Heb eu Cytuno: Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol

**Heb eu Cytuno:** Gwelliannau Janet Finch-Saunders AC sef **Gwelliant 11 a Gwelliant 12** a oedd, i grynhoi, yn ceisio gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru '**i sicrhau cyllid digonol' i** alluogi awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff perthnasol eraill i gymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol o ganlyniad i'r newid yn y gyfraith.

Gan wrthod y gwelliannau hyn, dywedodd Julie Morgan AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod yr hyn y mae'r gwelliannau yn ei gynnig y tu allan i'r trefniadau cyllido arferol sy'n gweithredu o fewn y Llywodraeth, ac nid yw'n glir pam, yng nghyd-destun y dystiolaeth a glywyd yng Nghyfnod 1, bod

darpariaethau o'r fath yn angenrheidiol. Aeth ymlaen i **ddweud** ei bod wedi gofyn i swyddogion baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) diwygiedig, yng Nghyfnod 2, a'i bod yn **gobeithio gallu dosbarthu Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru i aelodau'r Pwyllgor cyn Cyfnod 3'.** Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddogfen sy'n cael ei pharatoi ochr yn ochr â Bil, a dylai nodi pethau fel faint y bydd yn ei gostio ac a allai gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol ar rai materion.

### 5.5. CYTUNWYD: Cychwyn

**CYTUNWYD: Gwelliannau 7 ac 8** gan Lywodraeth Cymru sydd, i grynhoi, yn golygu y bydd Adran 1 o'r Bil, sy'n dileu'r amddiffyniad, yn dod i rym ddwy flynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Yn wreiddiol, nid oedd y Bil yn nodi dyddiad, ac roedd yn caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu ar hwn yn nes ymlaen.

**Heb eu Cytuno:** Gwelliannau Janet Finch-Saunders a Suzy Davies **9, 10 a 13 i 16.** Gan gyfeirio at y rhain, **dywedodd** y Dirprwy Weinidog:

> I've listened to the arguments put forward by Suzy Davies and Janet Finch-Saunders for the amendments in this group that they have tabled. These amendments are all about making the commencement of the Bill conditional on something else happening, whether it's waiting for the revision of Crown Prosecution Service guidance, or the establishment of a pathway for diversion from the criminal justice system, or for the provision of parenting support services. And, really, I don't think that we should be going down that road.

## 6. Beth nesaf?

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 25 Hydref 2019. Dyma'r adeg pan all unrhyw Aelod Cynulliad awgrymu newid pellach i'r fersiwn o'r **Bil sydd bellach yn cynnwys yr holl newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2..**

Bydd y Cynulliad cyfan yn trafod y newidiadau hyn ar ddechrau 2020 ac yn pleidleisio arnynt. Cyhoeddir yr union ddyddiad yn **Natganiad Busnes y Cynulliad**



**Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2:** Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)